# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 3A, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD GWENER, 16 MEHEFIN 2017 AM 10.00 AM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | J P Curtice | P Downing |
| V M Evans | S J Gallagher | C L Philpott |
| L V Walton | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Lynda Anthony | Swyddog Adrannol, Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch |
| Yvonne Lewis | Swyddog Trwyddedu |
| Lyndsay Thomas | Swyddog Trwyddedu |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): P Lloyd a/ac H M Morris

5 **DERBYN DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

Cynghorydd

Y Cynghorydd C Anderson – Personol – Cofnod rhif 12 – Deddf Cydraddoldeb 2010 – Teithwyr mewn Cadeiriau Olwyn - Cais am Dystysgrif Eithrio - WCS - Rwy'n adnabod yr ymgeisydd. Gadawodd y Cynghorydd Anderson cyn i'r eitem gael ei hystyried.

Swyddog

Samantha Woon – Personol – Cofnod rhif 14 – Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Gyrrwr Bathodyn Deuol – Rwy'n adnabod yr ymgeisydd.

6 **COFNODION:**

**PENDERFYNWYD** bod cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 21 Ebrill a 25 Mai 2017 yn gofnod cywir.

7 **CYLCH GORCHWYL. (ER GWYBODAETH).**

**PENDERFYNWYD NODI** y cylch gorchwyl.

## 8 NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I FFÏOEDD GWEITHREDWR HURIO PREIFAT

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch a oedd yn manylu ar newidiadau arfaethedig i ffïoedd gweithredwyr hurio preifat.

Manylodd ar yr wybodaeth gefndir, y newidiadau dadreoleiddio, y sefyllfa bresennol, y ffïoedd arfaethedig, a'r goblygiadau ariannol a chyfreithiol.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

**PENDERFYNWYD CYMERADWYO A HYSBYSEBU** y ffïoedd arfaethedig.

## 9 NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I FFÏOEDD CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT.

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch a oedd yn cynnig newid ffïoedd cerbydau hacni a hurio preifat.

Manylodd ar yr wybodaeth gefndir, yr ystyriaethau, y ffïoedd arfaethedig, a'r goblygiadau ariannol a chyfreithiol.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

**PENDERFYNWYD CYMERADWYO A HYSBYSEBU** y ffïoedd arfaethedig.

## 10 GWAHARDD Y CYHOEDD.

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

## 11 DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - TRWYDDED CERBYD HACNI A GYRRWR HURIO PREIFAT - TAA.

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â TAA.

Manylodd yr achwynydd, SC, yng nghwmni partner SC a dau gynrychiolydd o Guide Dogs Cymru, ar amgylchiadau'r digwyddiad ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

Esboniodd TAA amgylchiadau'r digwyddiad ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD** y dylid cyflwyno llythyr rhybudd cryf ynghylch ymddygiad yn y dyfodol.

## 12 DEDDF CYDRADDOLDEB 2010 - TEITHWYR MEWN CADEIRIAU OLWYN - CAIS AM DYSTYSGRIF EITHRIO - WJG.

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas ag WJG, ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

Esboniodd WCS amgylchiadau'r cais ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD CYMERADWYO** cais WJG am dystysgrif eithrio **am gyfnod amhenodol**.

## 13 DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - TRWYDDED CERBYD HACNI/HURIO PREIFAT GYFYNGEDIG - ALR.

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas ag ALR.

Esboniodd ALR amgylchiadau'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD GWRTHOD** cais ALR i adnewyddu'r drwydded gyrru cerbydau hacni a hurio preifat.

### Rheswm dros y Penderfyniad

Roedd y pwyllgor o'r farn nad oedd ALR yn berson addas a phriodol.
Roedd y pwyllgor yn ystyried bod natur y collfarnau'n fwy na thramgwyddau dibwys.
Oherwydd nifer y collfarnau, roedd y pwyllgor yn credu bod angen camau gweithredu pellach i ddiogelu teithwyr.

Ar ôl clywed esboniadau ALR am y collfarnau, roedd yr aelodau'n teimlo nad oedd ALR yn gweithredu'n groes i'w gymeriad ac y byddai'n parhau i anwybyddu'r rhwymedigaethau i gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol eraill a ddisgwylir.

## 14 DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - GYRRWR BATHODYN DEUOL - SJH.

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â SJH.

Darllenodd y cyfreithiwr a oedd yn cynghori'r pwyllgor lythyr gan gyfreithwyr SJH a roddodd eglurhad o ran y gollfarn.

Esboniodd MJW amgylchiadau'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD** gohirio'r mater, yn amodol ar dderbyn mwy o wybodaeth gan feddyg SJH.

## 15 DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREF 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - NDTD.

Dywedodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch nad oedd NDTD yn bresennol ac nid oedd wedi esbonio pam nad oedd yn bresennol na cheisio gohirio'r mater.

Rhoddodd y cyfreithiwr a oedd yn cynghori'r pwyllgor gyngor ar y weithdrefn.

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â NDTD.

**PENDERFYNWYD**

Y dylid ymdrin â'r mater yn absenoldeb NDTD; ac y

Dylid **DIDDYMU**'r drwydded cerbyd hacni a hurio preifat.

**Rheswm dros y Penderfyniad**

Penderfynodd y pwyllgor nad oedd NDTD yn berson addas a phriodol oherwydd methiant NDTD i gydymffurfio â cheisiadau niferus a wnaed gan yr Is-adran Trwyddedu i gyflwyno gwybodaeth.
Nododd yr aelodau fod NDTV wedi cael 3 phwynt cosb yn ystod yr amser roedd y swyddogion wedi bod wrthi'n ceisio cysylltu â NDTV ac roedd wedi methu rhoi gwybod i'r swyddogion am hyn.
Ni fodlonwyd yr aelodau nad oedd NDTD yn gweithredu'n groes i'w gymeriad nac y byddai'n cydymffurfio â gofynion yn y dyfodol. Felly, roedd yn peri risg i ddiogelwch teithwyr.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.58 am

**CADEIRYDD**